

CYLCHLYTHYR Y RHAGLEN DELWEDDU GENEDLAETHOL



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Rhaglen Delwedd
Genedlaethol
National Imaging
Programme

MEHEFIN 2026



**Croeso i Yr ail ar bymtheg
rhifyn Cylchlythyr y Rhaglen
Ddelweddu Genedlaethol!**

Diweddariad ar y Prosiect Uwchsain

Byddwn yn neilltuo rhan fawr o'r Cylchlythyr hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith rydym wedi'i ddechrau ar gefnogi gwasanaethau uwchsain ledled Cymru.

Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Blaenoriaethau'r Rhaglen
- Cydweithredu ag Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (ADdGC)
- Y Gweithlu ac Arweinyddiaeth
- Iechyd Menywod

Rydym yn falch o fod yn gweithio gyda'n gilydd fel tîm i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau uwchsain ledled Cymru. Ein focws eleni yw cefnogi cywirdeb data, deall heriau'r gweithlu, a gweithio ar y cyd â chydweithwyr a phartneriaid i wella mynediad, ansawdd, a phrofiad y claf. Diolch i bawb sy'n parhau i rannu eich mewnwelediadau a'ch arbenigedd - gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn.

Uchafbwyntiau

- Prosiect Uwchsain
- Adnoddau Rôl Cymru Gyfan
- "Newyddion arall"





Prosiect Uwchsain

Blaenoriaethau'r Rhaglen

Ffrwd waith 1. Archebu ac Amserlennu

Mae hyn yn cynnwys datblygu proses archebu genedlaethol, canllawiau ar gyfer cleifion sydd ddim yn mynd i apwyntiadau (DNA) neu'n canslo eu hapwyntiad a mewnbwn data cleifion safonol.

Ffrwd waith 2. Rheoli Llwybrau a Dilysu

Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ar weithdrefnau clerigol a fetio clinigol, canllawiau ar atgyfeirio ac Amser Aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT) a llwybrau rheoli safonol.

Ffrwd waith 3. Data ac Adrodd

Mae hyn yn cynnwys datblygu set ddata ofynnol genedlaethol ar gyfer uwchsain a safoni terminoleg a chodio. Nod y rhain yw gwella deallusrwydd am wasanaethau, meincnodi, a chefnogi llwybrau cleifion ehangach.

Adnoddau ar Anafiadau Straen Ailadroddus (AASA)

Yn dilyn trafodaethau gyda sonograffwyr ledled Cymru, lle'r oedd anhwylderau cyhyrysgerbydol sy'n gysylltiedig â gwaith ac RSI yn parhau i fod yn bryder sylweddol, rydym wedi datblygu cyfres o bodlediadau sy'n archwilio camau ataliol, adrodd a dysgu. Mae'r podlediadau hyn ar gael yma:

<https://youtu.be/nmR1bmRK0E8>

<https://youtu.be/vsSFLbrqK8o>





Academi Ddelweddu
Genedlaethol Cymru
National Imaging
Academy Wales

Cydweithredu ag ADdGC ac Iechyd Menywod

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (ADdGC) i sefydlu amgylchedd hyfforddi clinigol mwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer sonograffwyr dan hyfforddiant. Ers mis Rhagfyr, mae rhaglen hyfforddi beilot wedi bod yn rhedeg i archwilio sut y gall modelau addysg glinigol pwrpasol gynyddu capasiti lleoliadau a chefnogi twf y gweithlu.

Rydym ni yn gweithio gydag ADdGC i archwilio cyfleoedd i wella sgiliau sonograffwyr wrth ganfod ac asesu cyflyrau iechyd menywod, gan gynnwys endometriosis. Nod y gwaith hwn yw cryfhau gallu'r gweithlu, gwella llwybrau diagnostig a chefnogi diagnosis cynharach i fenywod ledled Cymru.

Prosiect Uwchsain



Gweithlu ac Arweinyddiaeth

Yn gynharach eleni, cafodd Gill gyfle i siarad yn y Senedd fel rhan o'i thaith arweinyddiaeth gydag Academi Dysgu Dwys Cymru.

Wrth fyfyrio ar ei phrofiadau arweinyddiaeth, tynnodd sylw hefyd at rai o'r heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu gwasanaethau uwchsain ledled Cymru, gan gynnwys:

- Galw cynyddol gan gleifion
- Prinder gweithlu
- Pwysigrwydd cydweithio a safoni cenedlaethol
- Yr angen am fodelau hyfforddi cynaliadwy

Helpodd y cyfle hwn i godi ymwybyddiaeth o'r rôl hanfodol y mae uwchsain yn ei chwarae wrth gefnogi gofal cleifion ar draws GIG Cymru.



Adnoddau Rôl Cymru Gyfan

Rydym yn falch o rannu bod swydd-ddisgrifiadau Cymru gyfan i gefnogi'r gweithlu Radiograffwyr Diagnostig bellach wedi cwblhau'r broses baru ac wedi cael eu cymeradwyo gan Fforwm Partneriaeth Cymru.

Mae cyfres gynhwysfawr o swydd-ddisgrifiadau Cymru Gyfan o Weithiwr Cymorth Clinigol Radioleg i Ymarferydd Uwch ar gael trwy ein tudalen [Adnoddau](#). Mae pob un ar gael i'w lawrlwytho i gefnogi prosesau recriwtio.

Mae swydd-ddisgrifiadau Cymru Gyfan ar gyfer Ymarferwyr Ymgynghorol mewn Radiograffeg Ddiagnostig, Sonograffeg a Mamograffeg hefyd wedi'u datblygu a'u paru, ac maent yn y camau olaf o gael eu cymeradwyo gan Fforwm Partneriaeth Cymru. Byddwn yn ychwanegu'r rhain at ein gwefan cyn gynted â phosibl.


Hoffem ddiolch i'r holl gydweithwyr sydd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r dogfennau hyn, gan ddarparu cysondeb ac optimeiddio ar draws gweithlu delweddu diagnostig GIG Cymru.

Cyfle Hyfforddi

Mae Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru wedi cadarnhau ei bod yn gallu cefnogi gwasanaethau delweddu i ddatblygu aseswyr Agored o fewn eu gweithlu radiograffwyr. Cysylltwch â imaging.academy@wales.nhs.uk am ragor o fanylion ac i gael mynediad at y cyfle hwn.

Y Gweithlu Nyrsio Radioleg

Mae'r Rhaglen Wella Genedlaethol wedi dwyn ynghyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o GIG Cymru, Undebau Llafur, Cyrff Proffesiynol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu swydd-ddisgrifiadau Cymru Gyfan ar gyfer Gweithlu Nyrsio Radioleg Band 5 a Band 6. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael trafodaethau gwych, ac rydym yn edrych ymlaen at eich diweddarw wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.



Cynhadledd Delweddu ac Oncoleg y DU

Aeth aelodau o'r tîm i gynhadledd UKIO 2026 yn Lerpwl, ar hyd oedd yn cynnwys cyflwyniad poster Gill Lingwood ar ei gwaith ym maes uwchsain. Treuliwyd amser yn ymweld â chyflenwyr ar y stondinau, yn mynd i ddarlithoedd diddorol, yn cwrdd â chydweithwyr ac yn meithrin rhwydweithiau (yn ogystal â bachu beiros am ddim!). Cafwyd syniadau ar gyfer cynhadledd y Rhaglen Wella Genedlaethol, a fydd gobeithio, yn cael ei chynnal yn ddiweddarach eleni. Felly cadwch lygad allan.

Cyfarfod Radiograffyddion Adrodd

Am y tro cyntaf ers 20 mlynedd, cafodd grŵp Radiograffyddion Adrodd Cymru Gyfan gyfarfod wyneb yn wyneb yn Ysbyty Nevill Hall i sefydlu a chryfhau cymuned radiograffeg adrodd genedlaethol ac atgyfnerthu ffocws cyffredin ar ansawdd, gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, a chywirdeb wedi'i sicrhau gan lywodraethu. Mae'r grŵp yn gobeithio adeiladu ar y gwaith hwn trwy archwilio safoni arferion adrodd a phrosesau adolygu gan gymheiriaid yn ogystal ag ystyried gwelliannau mewn integreiddio System Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS) a llif gwaith digidol.

Ymweliadau Safle

Mae'r Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol yn ymweld ag adrannau Delweddu ledled Cymru i ddeall sut mae Soliton/RISP yn cael eu defnyddio'n ymarferol. Mae'r ymweliadau'n archwilio prosesau archebu, fetio, dilysu, ansawdd data ac adrodd; yn nodi heriau cyffredin, arferion da lleol a chyfleoedd ar gyfer safoni cenedlaethol i gefnogi llwybrau delweddu ac adrodd ar berfformiad mwy diogel a chyson.

Mae Dogfen Lywodraethu Uwchsain Cymru Gyfan

Mae Dogfen Lywodraethu Uwchsain Cymru Gyfan wedi'i chwblhau, ac unwaith y bydd wedi'i chymeradwyo yn WSAC, caiff ei rhannu gyda phob bwrdd iechyd

Priodas Amanda!

Llongyfarchiadau i Amanda Evans, sy'n dechrau ei phennod newydd fel Amanda Bell ar ôl ei phriodas hyfryd! Ymunwch â ni i ddymuno oes o gariad, hapusrwydd ac atgofion hapus iddi hi a'i gŵr newydd.

